AGENDA

Dydd Mawrth 25 Tachwedd 2025 **AMSEROEDD**

Bwyd a lluniaeth (Venue Cymru) O 11.30

1. Gweddïau agoriadol 12.15

2. Cyhoeddiadau a chroeso

3. Trafod cynigion sy'n ymwneud ag Esgobaeth Bangor 12.30

Cynnig:

Mae Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn penderfynu fel a ganlyn:

1.) Mae'r Corff Llywodraethol:

a. Yn rhyddhau Coleg Etholiadol yr Esgob ar gyfer Esgobaeth Bangor a alwyd i gyfarfod yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandudno ar 25-27 Tachwedd 2025;

b. Yn atal y broses ar gyfer ethol Esgob Esgobaethol newydd ar gyfer Esgobaeth Bangor naill ai (a) tan 1 Ionawr 2028 neu (b) tan ddyddiad cynharach a gymeradwyir drwy benderfyniad y Pwyllgor Sefydlog. Ystyrir y cyfryw ddyddiad fel y dyddiad y daeth Esgobaeth Bangor yn wag at ddibenion Pennod V o'r Cyfansoddiad a'i Reoliadau cysylltiedig);

c. Yn gofyn i Archesgob Cymru wneud darpariaeth briodol ar gyfer cyflawni dyletswyddau Esgob Bangor yn ystod cyfnod estynedig y swydd wag yn yr Esgobaeth; ac

d. Yn awdurdodi Archesgob Cymru i roi'r teitl 'Esgob Dros Dro Bangor' i unigolyn mewn Urddau Esgobol a benodir yn Gomisari yr Archesgob i weithredu ar ran yr Archesgob i gyflawni dyletswyddau Esgobol yn Esgobaeth Bangor. Bydd yr awdurdodiad a'r teitl hwn yn dod i ben yn awtomatig wrth gadarnhau etholiad Esgob nesaf Bangor;

2.) Pan a thra bod unigolyn yn dal y teitl 'Esgob Dros Dro Bangor':

a. Ac eithrio fel y nodir yn y penderfyniad hwn, bydd yn dal yr holl benodiadau ex-officio, ymddiriedolaethau a hawliau enwebu, presenoldeb a phenodi sy'n perthyn i Esgob Bangor yn unol â hawl yr Esgobaeth;

b. Caiff ei drin at ddibenion Pennod II (a'i Rheoliadau cysylltiedig) a Phennod IX o'r Cyfansoddiad fel Esgob Cynorthwyol sy'n gwasanaethu mewn rôl llawn amser ac nid fel Esgob Esgobaethol;

c. Caiff ei drin at ddibenion Canon Telerau Gwasanaeth Clerigion 2010 fel Esgob Cynorthwyol, ac at ddibenion y Cynllun Cynnal Gweinidogaeth fel Esgob Cynorthwyol sy'n gwasanaethu yn Esgobaeth yr Archesgob;

d. Ni fydd yn gymwys i gael ei ethol yn Archesgob Cymru;

e. Ni fydd yn aelod o Synod Taleithiol yr Esgobion, nac o Goleg Etholiadol yr Archesgob nac o unrhyw Goleg Etholiadol yr Esgob (oni bai ei fod yn gymwys ac yn cael ei ethol fel Etholwr Clerigol Esgobaeth); ac

f. Ni fydd unrhyw derfyn oedran ac oedran ymddeol hynaf yn y Cyfansoddiad (ac yng Nghyfansoddiad Cynhadledd yr Esgobaeth) yn berthnasol iddo.

Diwedd y cyfarfod Erbyn 14.45

Bydd bysiau yn cael eu trefnu i hebrwng aelodau o Venue Cymru i orsaf reilffordd Cyffordd Llandudno ar ôl diwedd y cyfarfod.